# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

## Manylion y Grŵp Trawsbleidiol:

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Hawliau Defnyddwyr |
| **Aelodaeth y Grŵp a Deiliaid Swyddi** | |
| **Enw Cadeirydd y Grŵp:** | Sioned Williams AS |
| **Enwau Aelodau eraill o'r Senedd:** | Jane Dodds AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS |
| **Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad:** | Alun Evans, Cyngor ar Bopeth\|<br>Cyngor ar Bopeth Cymru |
| **Enwau aelodau a sefydliadau allanol eraill a gynrychiolir:** | Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, Ffocws ar Drafnidiaeth, Marchnadoedd Defnyddwyr, Which?, Safonau Masnach Cymru |

## Cyfarfodydd eraill y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod 1** | |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 15/06/22 |
| **Yn bresennol:** | Luke Young, Rebecca Woolley, Shah Alom Sumon, Simon Harris, David Beer, Jessica Tye, Rhodri Williams, Amy Dutton, Lindsey Kearton, Alun Evans<br><br>**Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol:**<br>Sioned Williams AS, Jane Dodds AS, Rhun ap Iorwerth AS |
| **Crynodeb o'r materion a drafodwyd:** | Gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y grŵp, croesawodd SW yr aelodau, gan amlinellu prif ddiben ac amcanion y grŵp. Roedd yr amcanion yn cynnwys archwilio sut y gall pobl Cymru fod yn fwy hyderus fel defnyddwyr, a hynny mewn perthynas â'r ystod lawn o nwyddau a gwasanaethau sydd ar |

| | |
|---|---|
| | gael i ddefnyddwyr ac sy'n dod i'r amlwg mewn marchnad sy’n gynyddol ddigidol. Penodwyd Sioned Williams yn Gadeirydd ar y Grŵp Trawsbleidiol, a phenodwyd Cyngor ar Bopeth Cymru yn ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp. Rhoddodd Luke Young o sefydliad Cyngor ar Bopeth Cymru gyflwyniad ar sut mae’r argyfwng costau byw a thueddiadau defnyddwyr cyffredinol yn effeithio ar ddefnyddwyr yng Nghymru. Codwyd aelodau bryderon ynghylch prisio yn ôl ethnigrwydd. Tynnodd Sioned Williams AS sylw at adroddiad diweddar a oedd yn cynnwys enghreifftiau o brisio gwahaniaethol ac enghreifftiau o wahaniaethu ar sail codau post. Yn ôl yr adroddiad, gallai cuddio gwahaniaethu economaidd-gymdeithasol fod yn brocsi ar gyfer mathau eraill o wahaniaethu. Awgrymwyd y gallai prisio gwahaniaethol gynrychioli ffrwd ehangach o waith yn y dyfodol. Rhannodd Jessica Tye ddiweddariad byr ar rywfaint o waith yr oedd ASA yn ei wneud, gan gynnwys gwaith ar gytundebau Prynwch Nawr Talwch yn Ddiweddarach (Buy Now Pay Later), gan gynnwys canllawiau wedi'u diweddaru ac ymchwiliadau parhaus. |

| Cyfarfod 2 | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 06 02 23 |
| **Yn bresennol:** | Luke Young, Tim Mouncer, Sophie Beesley, Maggie Kinsey, Sian Phipps, David Beer, Jessica Tye, Rhodri Williams, Lia Moutselou, Amy Dutton, Lindsey Kearton, Alun Evans<br><br>**Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol:**<br>Sioned Williams AS |
| **Crynodeb o'r materion a drafodwyd:** | Gwnaeth Which? roi cyflwyniad ar effaith costau byw ar fenywod yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth ddilynol a oedd yn canolbwyntio ar yr angen am ymgysylltu gwell gan gyflenwyr, Llywodraethau a rheoleiddwyr, a hynny er mwyn helpu defnyddwyr i adnabod a chael mynediad at y ffynonellau o gefnogaeth a gwybodaeth sydd ar gael iddynt.<br><br>Trafododd Luke Young y dangosfwrdd costau byw diweddaraf gan Gyngor ar Bopeth Cymru.<br><br>Tynnodd Rhodri Williams sylw at waith y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ynghylch tariffau cymdeithasol sengl. O ran y camau nesaf, cytunodd y grŵp i ystyried cwestiwn i Lywodraeth Cymru ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i hyrwyddo tariffau cymdeithasol ar gyfer defnyddwyr. |

| Cyfarfod 3 | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 04/07/23 |
| **Yn bresennol:** | Lia Moutselou, Rhodri Williams, Samantha James, Lauren Kinsey, Tim Mouncer, David Beer, Catherine Drewett, Simon Harris, David Roberts, Nicola Evans, Lucien Wise, Simon Hatch, Alun Evans, Lindsey Kearton, Anwen Jones<br><br>**Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol:**<br>Sioned Williams AS, Mark Isherwood AS, Peredur Owen Griffiths AS, Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS) |
| **Crynodeb o'r materion a drafodwyd:** | Cafodd Sioned Williams AS ei hail-ethol yn |

| | |
|---|---|
| | Gadeirydd, yn dilyn enwebiad gan Peredur Owen Griffths AS a Mark Isherwood AS. Cafodd Cygor ar Bopeth Cymru ei ail-ethol yn Ysgrifenyddiaeth.<br><br>Rhoddodd Lia Mouselou o'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr gyflwyniad ar yr heriau sy’n wynebu aelwydydd ar hyn o bryd. Mynegodd yr angen i symleiddio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cael cymorth ar draws lleoliadau a gwahanol gyfleustodau, a’r angen i roi terfyn ar y loteri cod post sy'n gysylltiedig â chymorth. Cyfeiriodd Samantha James at y cymorth y mae Dŵr Cymru yn ei ddarparu ar gyfer aelwydydd incwm isel.<br><br>Cafwyd cyflwyniad gan Lindsey Kearton ar ddangosfwrdd costau byw diweddaraf Cyngor ar Bopeth Cymru. |

# Datganiad Ariannol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

| | |
|---|---|
| **Teitl y grŵp trawsbleidiol:** | Hawliau Defnyddwyr |
| **Dyddiad**: | 13/07/23 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Sioned Williams AS |
| **Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad:** | Alun Evans, Cyngor ar Bopeth\| Cyngor ar Bopeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim | £0.00 |
| **Cost yr holl nwyddau:** | Dim nwyddau wedi'u prynu | £0.00 |
| **Buddion a gafodd y grŵp neu aelodau unigol o gyrff allanol:** | Ni chafwyd buddion | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall:** | Ni chafwyd unrhyw gymorth ariannol | £0.00 |
| **Data** | **Disgrifiad ac enw'r darparwr** | Costau |
| | | £0.00 |
| | **Cyfanswm y costau** | £0.00 |